Ysbyty Gwynedd

# Adran Achosion Brys

Newyddlen Chwefror 2018

**Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith gwella yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**




## Yn y rhifyn hwn:

- Cipolwg ar ein mynedfa ambiwlans newydd
- Ystafell aros newydd sbon i gleifion
- Ysgrifennydd Iechyd yn ymweld â staff yn ein Adran Achosion Brys
- Adroddiad rheolwr y safle

# Ein mynedfa ambiwlans ac ystafell aros newydd sbon!

Mae cam cyntaf y gwaith gwella yn ein Adran Achosion Brys yn awr wedi'i gwblhau.
Gallwn yn awr ymffrostio mewn ystafell aros newydd sbon sydd â mwy o le a chyfleusterau. Mae gennym hefyd dderbynfa newydd sydd yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr a tair ystafell brysbennu a bae a mynedfa ambiwlans newydd.
Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â ni trwy gydol y camau cynllunio ac yn falch iawn bod y fynedfa ambiwlans newydd wedi'i chwblhau.
Dywedodd David Hughes, Rheolwr Ardal Gwynedd ac Ynys Môn: "Mae'r prosiect hwn yn arwydd o gyfnod newydd o weithio mewn partneriaeth, gofynnwyd i Wasanaeth Ambiwlans Cymru gyfrannu meddyliau a syniadau mewn perthynas uniongyrchol â chael mynediad i mewn ac allan i gleifion ambiwlans.
"Mae hwn wedi bod yn brofiad cadarnhaol i bawb dan sylw ac rwyf yn edrych ymlaen at weld yr adran yn tyfu a datblygu, gan ddarparu canolfan well ar gyfer darparu gwasanaeth."
Dechreuodd y gwaith o ail siapio'r Adran Achosion Brys y llynedd i helpu i gynyddu capasiti a gwella'r amgylchedd i gleifion a staff.
Bydd y gwaith yn cael ei gynnal dros dri cham gyda cham nesaf y datblygiad yn dechrau ar ddechrau mis Mawrth.
Dywedodd Dr Rob Perry, Meddyg Ymgynghorol yn yr Adran Achosion Brys: "Rydym yn hynod falch o fod wedi mynd yn fyw o'r diwedd gyda rhan hwn y datblygiad.
"Rydym yn awr yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â rhan nesaf y prosiect."
Ychwanegodd Dr Karen Mottart, Cyfarwyddwr Meddygol Ysbyty Gwynedd: "Mae'n wych gweld bod cam cyntaf y gwaith gwella yn ein Hadran Achosion Brys wedi ei gwblhau.
"Bydd y gwelliannau hyn yn gwneud gwahaniaeth anferthol i fywyd gwaith ein staff ac i'r cleifion sy'n defnyddio'r adran."







## *Drosodd i chi...*

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a'n gwasanaethau. Dyma enghraifft o rai o'r pethau y mae unigolion wedi dweud wrthym.

""Diolch am ofal gwych wrth ofalu am fy mam. Adran Achosion Brys ardderchog."

"Cefais fy rhuthro i'r Adran Achosion Brys hwn ac roedd y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniais gan staff a oedd dan bwysau dros benwythnos yn wych. Ni allaf ganmol yr ysbyty hwn ddigon."

"Mynychais yr Adran Achosion Brys ar gyfer anaf agored yn fy nhroed. Rwyf ond eisiau dweud diolch wrthych chi unwaith eto am eich gwasanaeth arbennig ac am orchuddio fy nghlwyfau."

# Ysgrifennydd Iechyd yn ymweld â'n Adran Achosion Brys

Daeth Vaughan Gething ,yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ymweld â'n Adran Achosion Brys y mis hwn i ddiolch i staff am eu hymdrechion dros gyfnod prysur y gaeaf.
Bu i Mr Gething gyfarfod â nifer o staff ac fe aeth ar daith o gwmpas yr adran i weld sut oedd y gwaith yn datblygu.










## Adroddiad Iwan Lewis, rheolwr y safle

Interserve
Ingenuity at work

Rydym yn flach iawn o ddweud bod cam 1 o'r gwaith gwella yn awr wedi'i gwblhau. Mae hwn yn darparu man gollwng ambiwlans newydd ac estyniad un llawr sy'n ffurfio mynedfa'r Adran Achosion Brys newydd.

Gyda cham 1 wedi'i gwblhau, bydd cam 2 yn canolbwyntio ar ailwampio Paediatreg ac adeiladu'r Uned Penderfyniadau Clinigol a'r Adran Weinyddu.




